**Teitl: Dioddefaint**

<table>
<tr><th>Teitlau</th><th>Sut mae Cristnogaeth yn ymateb i ddioddefaint</th><th>Sut mae Bwdhaeth yn ymateb i ddioddefaint</th><th>Sut mae Iddewiaeth yn ymateb i ddioddefaint</th></tr>
<tr><td>Rhesymeg</td><td colspan="3">YMWADIAD: Mae'r Nodiadau i Athrawon wedi'u diweddaru er mwyn gallu defnyddio'r adnodd drwy Gwricwlwm i Gymru. Wedi dweud hynny, mae cynnwys yr erthyglau wedi'i archifo ac nid yw'r wybodaeth wedi'i diweddaru. Mae'r erthyglau yn cael eu cadw ar y wefan gan fod y cynnwys yn parhau i fod yn berthnasol i Gwricwlwm i Gymru: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.<br><br>Pedwar diben 'Cwricwlwm i Gymru - Cwricwlwm am Oes'<br>Drwy ddysgu am Ddioddefaint fel rhan o'u gwersi addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, bydd cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu yn:<br>• Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n gallu egluro'r syniadau a'r cysyniadau maen nhw'n eu dysgu;<br>• Unigolion iach a hyderus sydd â gwerthoedd cadarn ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol a moesol;<br>• Cyfranogwyr mentrus, creadigol sy'n rhoi o'u hegni a'u sgiliau er budd pobl eraill;<br>• Dinasyddion moesol, dysgedig a fydd yn ymgysylltu â materion cyfoes yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u gwerthoedd.<br><br>Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru<br>Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i:<br><br>• Ymgysylltu â chwestiynau athronyddol a thyngedfennol, a'u harchwilio<br>• Ymgymryd ag ymholiadau ac ymgysylltu â ffynonellau o ddoethineb ac athroniaethau<br>• Datblygu a mynegi eu safbwyntiau dysgedig eu hunain<br>• Defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am safbwyntiau byd-eang crefyddol a heb fod yn grefyddol i feddwl yn feirniadol am eu gwerthoedd eu hunain<br>• Archwilio'r ffyrdd mae argyhoeddiadau athronyddol crefyddol a heb fod yn grefyddol wedi dylanwadu ar brofiad dynol drwy gydol hanes<br>• Gwerthuso amrywiaeth o ffynonellau crefyddol a heb fod yn grefyddol a defnyddio tystiolaeth ohonynt i ymgysylltu â materion moesegol a moesol<br>• Archwilio credoau ac arferion pobl yn eu cymuned, yng Nghymru ac yn y byd ehangach ac ymateb yn sensitif iddynt<br>• Datblygu gwerthoedd cadarn a sefydlu eu credoau moesol a'u hysbrydolrwydd<br>• Trafod eu persbectifau eu hunain a phersbectifau eraill, a myfyrio arnynt</td></tr>
</table>

| Teitlau | Sut mae Cristnogaeth yn ymateb i ddioddefaint | Sut mae Bwdhaeth yn ymateb i ddioddefaint | Sut mae Iddewiaeth yn ymateb i ddioddefaint |
|---|---|---|---|
| | **Y lens Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**<br>Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio amrywiaeth o gysyniadau yn ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy'r **is-lensys isod:**<br>• Chwilio am ystyr a diben;<br>• Y byd naturiol a phethau byw;<br>• Hunaniaeth a pherthyn;<br>• Awdurdod a dylanwad;<br>• Perthnasoedd a chyfrifoldeb;<br>• Gwerthoedd a moeseg;<br>• Taith bywyd;<br><br>*Noder bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael eu pennu'n lleol drwy faes llafur cytunedig. Mae gan bob awdurdod lleol ei faes llafur cytunedig ei hun ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y mae'n rhaid i ysgolion ei ystyried. Mae pob maes llafur sydd wedi'i gytuno wedi ystyried fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a chanllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y cyfeirir atynt uchod ac isod.<br><br>**Dolenni Defnyddiol:**<br><br>**Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg -** https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#religion,-values-and-ethics-guidance<br>**Canllawiau Dyniaethau Hwb -** https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities<br>**Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig -** https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/statements-of-what-matters/<br>**Themâu Trawsgwricwlaidd -** https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#cross-cutting-themes | | |

| Teitlau | Sut mae Cristnogaeth yn ymateb i ddioddefaint | Sut mae Bwdhaeth yn ymateb i ddioddefaint | Sut mae Iddewiaeth yn ymateb i ddioddefaint |
|---|---|---|---|
| **Geirfa allweddol** | Dioddefaint – Pan mae person yn dioddef, yn mynd trwy’r profiad o boen. S*uffering.*<br><br>Genesis - Llyfr cyntaf y Beibl. Gallwch ddarllen hanes dechrau’r byd ynddo.<br><br>Datguddiad - Llyfr olaf y Beibl. *Revelation.*<br><br>Ioan -Pedwerydd llyfr y Testament Newydd, ail ran y Beibl. *John.*<br><br>Salm - Cerdd neu gân o fawl i Dduw. Mae llyfr y Salmau yn y Beibl fel llyfr emynau. *Psalm.*<br><br>Job - Llyfr rhif 18 yn y Beibl. Mae’n adrodd hanes dyn da o’r enw Job yn colli ei deulu a’i gyfoeth i gyd. Mae’n trafod y thema, ‘Pam fod pobl dda yn dioddef?’ Dydy Job ddim yn troi ei gefn ar Dduw, ond yn dal ati i’w drystio.<br><br>Hunangofiant - Llyfr sy’n disgrifio hanes bywyd yr awdur. *Autobiography.*<br><br>Gweinidog - Arweinydd mewn capel. Mae’n arwain addoliad, yn dysgu’r Beibl, yn gofalu | Pedwar Gwirionedd Urddasol – Dyma neges sylfaenol crefydd Bwdhaeth sy’n ymwneud â dioddefaint.<br><br>Y Llwybr Wythblyg Urddasol – Arweiniad ar gyfer dull o fyw o fewn crefydd Bwdhaeth.<br><br>Myfyrio – Ymarferion meddyliol a chorfforol ar gyfer delio gyda bywyd.<br><br>Ailenedigaeth – Y gred fod ysbryd/enaid person yn dod yn ôl i’r byd mewn corff arall.<br><br>Karma – Yn syml gweithredoedd, gall karma da a drwg yn y bywyd blaenorol effeithio ar fywyd yn y presennol.<br><br>Dukkha – Term Bwdhaeth am ddioddefaint; Ysfa/Dyhead – Y teimlad sydd gan bobl o fod eisiau pethau mewn bywyd.<br><br>Hil-laddiad – Ymgais i ddileu parhad un grŵp o bobl. | Triawd Anghyson - Y ddamcaniaeth na all Duw Hollalluog, Hollgariadus a drygioni fodoli gyda'i gilydd.<br><br>Hollalluog – Y gallu i wneud unrhywbeth.<br><br>Hollgariadus – Yn ewyllysio’r gorau i bawb, yn caru pawb.<br><br>Deg Gorchymyn - Y gorchmynion roddodd Duw i Moses ar fynydd Sinai.<br><br>Job – Proffwyd yn yr Hen Destament.<br><br>Holocost - ymdrech bwriadol y Natsïaid i ddinistrio'r hil Iddewig.<br><br>Shoah – mae’n golygu trychineb ac yn cyfeirio at lofruddiaeth chwe miliwn o Iddewon yn ystod yr Ail Ryfel Byd.<br><br>Natsïaid - Plaid Genedlaethol Sosialaidd Gweithwyr yr Almaen.<br><br>Canghellor – Arweinydd llywodraeth yr Almaen.<br><br>Auschwitz – gwersyll difa yng ngwlad Pwyl.<br><br>Ateb Terfynol - Penderfyniad y Natsïaid i ddifa'r hil Iddewig. |

| Teitlau | Sut mae Cristnogaeth yn ymateb i ddioddefaint | Sut mae Bwdhaeth yn ymateb i ddioddefaint | Sut mae Iddewiaeth yn ymateb i ddioddefaint |
|---|---|---|---|
| | am bobl. *Minister.*<br><br>Dyslecsia - Cyflwr sy'n gwneud hi'n anodd i berson ddarllen geiriau. *Dyslexia.*<br><br>Tawelyddion - Tabledi sy'n lleihau pryder neu straen . *Tranquillizers.*<br><br>Datrys - Dod o hyd i ateb i broblem; solfio. *To solve.*<br><br>Atal-dweud - Problem wrth siarad sy'n gwneud i chi fethu dweud llythyren gyntaf gair, neu ei hail adrodd. S*tutter; stammer.*<br><br>Gwadu - Gwrthod derbyn neu gydnabod. *Deny.* Mae'n derm sy'n cael ei ddefnyddio wrth drafod alcoholiaeth. Bydd yr alcoholig yn gwrthod derbyn fod unrhyw beth o'i le ar ei fywyd ac yn beio pobl eraill am ei broblemau.<br><br>Ildiais/ildio - Rhoi'r gorau i wrthwynebu neu wrthsefyll, plygu i rywbeth. *Cease to oppose or withstand, surrender, submit.*<br><br>Diddyfnu - Gwahanu rhywun yn raddol oddi | | Ghettos – rhannau o ddinasoedd neu drefi lle gorfodwyd yr Iddewon i fyw. Fel arfer roedd muriau wedi eu codi o'u hamgylch. |

| Teitlau | Sut mae Cristnogaeth yn ymateb i ddioddefaint | Sut mae Bwdhaeth yn ymateb i ddioddefaint | Sut mae Iddewiaeth yn ymateb i ddioddefaint |
|---|---|---|---|
| | wrth rywbeth. *To wean.*<br><br>Derbyniad - Gweithred o dderbyn. *Acceptance.* Mae'n derm sy'n cael ei ddefnyddio wrth drafod alcoholiaeth. Rhaid i'r alcoholig dderbyn ei fod yn alcoholig cyn medru dechrau delio gyda'i broblem. *Acceptance.*<br><br>Gwacter ysbrydol -<br>gwacter = Rhywbeth ar goll, lle gwag. *Void, emptiness.*<br>ysbrydol = Yn perthyn i'r ysbryd, neu i enaid person. *Spiritual.*<br><br>Stafell Fyw - <https://www.livingroom-cardiff.com/> Elusen sy'n cynnig help a chwnsela i bobl sy'n ddibynnol ar alcohol, gamblo, bwyd, rhyw. Mae nifer o eglwysi Cymru yn cyfrannu'n ariannol i gynnal y gwaith. | | |

| Teitlau | Sut mae Cristnogaeth yn ymateb i ddioddefaint | Sut mae Bwdhaeth yn ymateb i ddioddefaint | Sut mae Iddewiaeth yn ymateb i ddioddefaint |
|---|---|---|---|
| **Geiriau chwilio** | Wynford Ellis Owen<br><br>Dioddefaint<br><br>Alcoholig<br><br>Alcoholiaeth<br><br>Iesu Grist<br><br>Tawelyddion<br><br>Meddwi<br><br>Syr Wynff ap Concord<br><br>Ymwadiad<br><br>Derbyniad<br><br>Stafell Fyw<br><br>Gwacter ysbrydol. | Bwdha<br><br>Sylfaenydd<br><br>Myfyrio<br><br>Ailenedigaeth<br><br>Karma<br><br>Dioddefaint<br><br>Dukkha | J.L.Mackie<br><br>Triawd Anghyson<br><br>Iddewiaeth<br><br>Deg Gorchymyn<br><br>Ewyllys Rhydd<br><br>Shoah<br><br>Siambrau nwy<br><br>Auschwitz<br><br>Richard Rubenstein<br><br>Eli Wiesel<br><br>Eliezer Berkowitz |
| **Tasgau dosbarth** | Tasgau estynedig sy'n gofyn i'r disgyblion i ddefnyddio'r 3 erthygl, cyfeirio at gredoau/dysgeidiaethau ac arferion crefyddol wrth ymateb i gwestiynau sylfaenol/crefyddol. | | |

| Teitlau | Sut mae Cristnogaeth yn ymateb i ddioddefaint | Sut mae Bwdhaeth yn ymateb i ddioddefaint | Sut mae Iddewiaeth yn ymateb i ddioddefaint |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Tasgau ymestynnol** | 1. 'Problem pobl yw eu bod byth yn fodlon'. Paratowch drafodaeth dosbarth ar y thema yma. I ba raddau y gall crefydd ddod â'r bodlonrwydd mae pobl yn chwilio amdano?<br><br>2. 'Nid oes pwynt poeni am bethau na allwn eu newid'. Meddyliwch am ddadleuon o blaid ac yn erbyn y gosodiad; e.e. nid oes pwynt poeni am ein taldra; ar y llaw arall mae poeni am iechyd yn ein harwain i fwyta'n iach!<br><br>3. Casglwch wybodaeth am Y Pedwar Gwirionedd Urddasol (Nobl) a'r Llwybr Wythblyg Urddasol (Nobl). Dangoswch eich bod yn deall pa mor ganolog yw'r rhain i neges crefydd Bwdhaeth.<br><br>4. Ymchwiliwch i sefyllfa Moslemiaid Rohingya yn Nhalaith Rakhine o fewn gwlad Burma (Myanmar). I ba raddau maent yn dioddef oherwydd rhagfarn | 1. Lluniwch boster sy'n rhybuddio pobl ifanc o berygl alcohol a meddwi.<br><br>2. Darllenwch hanes dechrau'r byd yn Genesis 1<br>www.beibl.net/beibl-chwilio?viewid=BNET%3AGen.1&newwindow=BOOKREADER<br>Lluniwch ddwy golofn – y pethau wnaeth Duw eu creu ar y chwith, a'r ffordd mae'r pethau hyn yn dioddef heddiw e.e.<br>Colofn 1 — Colofn 2<br>Moroedd — llygredd, plastig….<br>Pobl — rhyfeloedd, salwch…<br><br>3. Gwnewch lun o ddraig, ac o'i hamgylch ysgrifennwch y pethau sy'n poeni pobl ifanc heddiw e.e. bwlio, arholiadau, siâp corff……..<br>Ysgrifennwch y gair HELP o dan y ddraig.<br><br>4. Mae llawer o bobl yn dioddef yn y byd | 1. Sut fyddech chi'n ymateb i Driawd Anghyson Mackie.<br><br>2. Sut mae dioddefaint yn dod o ewyllys rydd?<br><br>3. Ymchwiliwch i hanes Job ac ysgrifennwch ddeialog rhyngddo â Duw.<br><br>4. Trafodwch – 'A yw Duw yn defnyddio dioddefaint?'<br><br>5. Ymchwiliwch i hanes rhai Iddewon a oroesodd yr Holocost ac ysgrifennwch erthygl i gylchgrawn yr ysgol am eu profiadau.<br><br>6. Ymchwiliwch ymhellach i hanes Eli Wiesel ac ysgrifennwch ddeialog rhyngddo â Duw. |

| Teitlau | Sut mae Cristnogaeth yn ymateb i ddioddefaint | Sut mae Bwdhaeth yn ymateb i ddioddefaint | Sut mae Iddewiaeth yn ymateb i ddioddefaint |
|---|---|---|---|
| | grefyddol?<br><br>5. Pa grwpiau crefyddol eraill sydd wedi dioddef erledigaeth oherwydd eu crefydd. Pam fod hyn yn digwydd dro ar ôl tro? Beth mae hyn yn ei ddweud wrthym am y natur ddynol?<br><br>6. Gwnewch dasg ar thema bywyd Aung San Suu Kyi. Gofalwch sôn am ei Gwobr Heddwch Nobel. Gallwch lunio poster, taflen wybodaeth, map meddwl, erthygl ar gyfer cylchgrawn. Dewiswch chi! | heddiw. Dewiswch un enghraifft o ddioddefaint e.e. newyn yn Yemen; newid hinsawdd yn y Philipinas. Lluniwch gyflwyniad byr yn disgrifio'r dioddefaint ac unrhyw beth sy'n cael ei wneud i leddfu'r dioddefaint. Defnyddiwch wefannau Cymorth Cristnogol, Tearfund, Save the Children, WaterAid etc. i'ch helpu. | |
| **Adnodda u pellach** | | | |